# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 2 Hydref 2014** |
| Amser: | **08.30 – 12.44** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/1c459908-dc3d-4f34-a126-3ae2d0e685dd?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Nick Ramsay AC** |
| Tystion: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd**<br>**Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Nicola Callow, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**<br>**Jo Salway, Llywodraeth Cymru**<br>**Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)** |

Don Peebles (Cynghorwr Arbenigol)
Martin Jennings (Ymchwilydd)

## 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Adroddiad rhag-gyllidebol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Don Peebles, Cynghorwr Arbenigol.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

3.1 Cyllideb Atodol 2014-2015: Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16

4.1 Roedd Peter Black AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon ac eitem 8 gan ei fod yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

4.2 Bu'r Aelodau yn craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16 gyda'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nicola Callow, Pennaeth Cyllid.

4.3 Cytunodd y Llywydd i godi'r mater ynghylch tywyswyr yn casglu nodiadau Aelodau o'r Siambr i helpu gyda Chofnod y Trafodion yn y cyfarfod nesaf. Hefyd, ymrwymodd i ymchwilio i'r posibiliadau o ran opsiynau teithio amgen ar gyfer ymweliadau addysgol gan ysgolion.

4.4 Cytunodd Claire Clancy i edrych ar y materion hawlfraint sy'n ymwneud â'r adroddiad Ymddiriedolaeth Garbon a sicrhau ei fod ar gael i'r Aelodau os yn bosibl ac i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch pwy sy'n berchen Tŷ Hywel.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

5.2 Nododd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i'r pwyllgor perthnasol i archwilio gyda'r Gweinidog portffolio os bydd y toriadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu cyflwyno yn gyfartal ar draws Cymru, neu a fydd rhai ardaloedd cael toriadau mwy.

5.3 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn egluro'r sefyllfa o ran ardrethi annomestig ar yr amod nad yw'n tanseilio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU;

- rhannu â'r Pwyllgor rhywfaint o'r cyngor cynnar y mae'r Llywodraeth wedi ei gael ar y broses o ddatganoli treth dir y dreth stamp;

- cadarnhau'r trefniadau ar gyfer dyrannu arian i Awdurdodau Lleol yn benodol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol;

- darparu ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y posibilrwydd o gael porth sgiliau i oedolion mewn perthynas â gwasanaeth Gyrfa Cymru;

- gwirio cyhoeddi gwerthusiad ar y Grant Amddifadedd Disgyblion a rhoi manylion i'r Pwyllgor; a

- rhoi manylion i'r Pwyllgor am gyllid buddsoddi-i-arbed.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

7.1 Ymatebion i'r Ymgynghoriad - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16

## 8 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a nodi y bydd adroddiad drafft yn cael ei baratoi i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 8 Hydref 2014.

## 9 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Gohebiaeth y Pwyllgor

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ohebiaeth.